Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Banw
# Llangadfan
# Y Trallwng
# Powys
# SY21 0NW

# Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/11/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Dyffryn Banw ym mhentref Llangadfan ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Powys. Mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Darpara addysg ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed.

Ar hyn o bryd, mae 26 o ddisgyblion ar y gofrestr o fewn dau ddosbarth oed cymysg. Mae tua 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (19%).

Daw tua 14% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 24% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (25%).

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2014. Ar hyn o bryd, mae'r pennaeth parhaol ar gyfnod mamolaeth ac ers mis Medi mae'r awdurdod wedi sicrhau bod pennaeth arall yng ngofal yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Banw yn 2016-2017 yw £5,561. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mhowys yw £5,561 a'r lleiafswm yw £2,960. Ysgol Dyffryn Banw yw'r uchaf o'r 83 ysgol gynradd ym Mhowys o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yno
- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg
- bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith
- ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn
- ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal yn elfen gref o fywyd yr ysgol
- ansawdd yr addysgu yn gadarn
- ganddi weithdrefnau pwrpasol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a sicrhau lles y disgyblion
- y gweithdrefnau rheoli trwyadl a'r cydweithio agos rhwng y staff yn cyfrannu'n effeithiol at sicrhau gwelliant parhaus
- gan lywodraethwyr yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o'i chryfderau ac o'r meysydd sydd angen eu gwella
- ganddi weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol
- cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol
- ystod dda o bartneriaethau yn bodoli sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chefnogi lles y disgyblion

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod disgyblion yn fwy ymwybodol o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain

A3 Creu mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau proffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn cymunedau dysgu proffesiynol ffurfiol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol â medrau sy'n briodol i'r rhai a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran.

O ystyried eu man cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg ac maent yn defnyddio ystod eang o eirfa pan fyddant yn sgwrsio ac yn trafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac erbyn diwedd y cyfnod mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant effeithiol yn y ddwy iaith. Gall llawer drafod eu hoff lyfrau ac awduron yn llwyddiannus ac maent yn darllen yn rheolaidd ac yn eang o ran testun. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn datblygu'r uwch fedrau darllen yn effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n dda i ystod o ddibenion. Maent yn medru ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru ysgrifennu'n effeithiol mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith. Mae safon yr ysgrifennu estynedig yn dda iawn, yn arbennig yn y Gymraeg. Mae bron pob disgybl yn cyflwyno eu gwaith yn daclus iawn ac mae safon sillafu yn dda yn y ddwy iaith. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif a mesur gyda chywirdeb cynyddol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn datrys problemau yn ymwneud â rhifau, arian a mesuriadau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn darllen clociau analog a digidol yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio unedau safonol yn fedrus i fesur hyd a chynhwysedd, ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adnabod a disgrifio patrymau rhif a defnyddio fformiwlâu syml yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn adio a thynnu degolion hyd at ddau le ac yn gwirio eu canlyniadau gan ystyried os ydynt yn synhwyrol. Mae'r mwyafrif yn defnyddio cyfesurynnau yn y pedwar pedrant yn llwyddiannus. Maent yn mesur a llunio onglau i'r radd agosaf yn gywir. Fodd bynnag, yn y ddau gyfnod allweddol, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gyson ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn defnyddio ystod eang o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu yn effeithiol iawn. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn medru defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, pecynnau

trin data ac efelychiadau yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o raglenni TGCh i wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm. Mae’r rhan fwyaf yn medru defnyddio rhaglenni trin data yn effeithiol wrth greu graffiau. Mae bron pob disgybl ym mlwyddyn 5 a 6 yn medru defnyddio fformiwlâu o fewn rhaglen ddata a gallant gynhyrchu graffiau llinell yn effeithiol i ddangos canfyddiadau ymchwiliadau. Mae bron pob disgybl ar frig yr ysgol yn medru defnyddio rhaglenni côd yn effeithiol iawn i reoli a symud gwrthrychau ar sgrin gan ysgrifennu codau syml.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod niferoedd bychain o ddisgyblion mewn grŵp blwyddyn yn medru effeithio ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i’r llall.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg ar y deilliant disgwyliedig, mae perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol uwchlaw’r cyfartaledd mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mae’r perfformiad yn fwy amrywiol ar y deilliant uwch.

Yn ystod yr un cyfnod, o gymharu ag ysgolion tebyg, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a’r lefel uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol uwchlaw’r cyfartaledd.

Nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng cyflawniad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o’u cymharu â’u cyfoedion. Mae’r disgyblion sy’n cael cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da a chyson.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau bywyd yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel yno. Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta, yfed a byw’n iach ac yn mwynhau ystod o weithgareddau corfforol.

Mae ymddygiad bron pob disgybl ar y buarth ac yn y gwersi yn dda iawn. Mae’r disgyblion yn ofalgar ac yn parchu ei gilydd. Mae bron pob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos lefel dda o gymhelliant a dyfalbarhad yn eu gwaith. Maent yn cadw ar dasgau yn ddiwyd ac yn cydweithio’n dda â’i gilydd. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu'n bwrpasol at gyfeiriad eu dysgu trwy gynllunio agweddau penodol o fewn eu themâu.

Mae’r cyngor ysgol a’r cyngor eco yn chwarae rhan effeithiol ym mhenderfyniadau’r ysgol. Mae’r aelodau yn frwdfrydig a gweithgar iawn ac yn cyflwyno nifer o weithgareddau sy’n cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi rhoi mewnbwn i’r polisi gwaith cartref newydd a llunio gweledigaeth newydd yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i dderbyn cyfrifoldebau ac mae rôl y ‘bydis’ wedi ymwreiddio’n dda.

Mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer cefnogi nifer o elusennau ac achosion da yn y gymuned a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill.

Mae presenoldeb disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf ymhlith y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae hon yn nodwedd gref. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu eang a chytbwys sy'n bodloni bron pob un o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r testunau a'r gweithgareddau yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion ac yn sicrhau datblygiad a pharhad addas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi ei chynllunio'n effeithiol iawn ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd ar draws yr ysgol. Caiff medrau TGCh eu datblygu'n effeithiol ar draws gwahanol agweddau o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ddigon ar draws y pynciau eraill.

Mae gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol, er enghraifft, i'r Llyfrgell Genedlaethol ac i Eglwys Llanrhaeadr y Mochnant, yn cefnogi'r dysgu yn dda ac yn ymestyn medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn yr ysgol yn gadarn. Mae cyfleoedd buddiol i ymestyn gwybodaeth disgyblion am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn cynnwys astudio awduron ac arlunwyr Cymru a chyfrannu at wahanol ddathliadau ac eisteddfodau lleol, fel eisteddfod y Foel.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, y pwyllgor eco a gweithgareddau penodol, fel garddio. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at elusennau ac mae eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, fel gwlad Malaŵi, yn datblygu'n briodol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl ac maent yn paratoi gweithgareddau diddorol sy'n ymateb yn effeithiol i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Mae'r cyflwyniadau'n fywiog a'r dulliau holi yn dreiddgar i helpu disgyblion i wella eu cyfranogiad a'u cynnydd mewn gwersi. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gadarn a sefydlant berthynas weithio gadarnhaol gyda'r disgyblion. Mae pob oedolyn yn darparu model ieithyddol da.

Nodwedd arbennig o'r addysgu yw'r cydweithio llwyddiannus iawn rhwng yr athrawon a'r staff cymorth sy'n creu awyrgylch gadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae cyflymder da i ran fwyaf y gwersi ac mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn aros ar dasgau am gyfnodau estynedig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth yn addas i gynnig cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo anghenion disgyblion penodol. Mae’r athrawon yn rhannu amcanion dysgu’r gwersi gyda’r disgyblion yn dda ac yn cynnig adborth llafar effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r adborth ysgrifenedig bob amser yn nodi’n ddigon clir yr hyn sydd angen i’r disgyblion ei wneud i wella’r gwaith. Mae asesu ar gyfer dysgu ac asesu cymheiriaid yn datblygu’n dda. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn a chywir.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth ac adroddiadau buddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant. Mae’r adroddiadau yn cydymffurfio’n llawn â’r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ethos o barch, cyfrifoldeb a gofal yn elfen gref o fywyd yr ysgol a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd eang i ddisgyblion ddatblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol a gweithgareddau yn y gymuned. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i gadw’n heini.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer cynnal a gwella presenoldeb a phrydlondeb yn llwyddiannus iawn. Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos ac effeithiol ag asiantaethau arbennig fel y gwasanaethau lles, yr heddlu a nyrs yr ysgol i gefnogi lles disgyblion.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod a nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn darparu cymorth yn briodol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson. Mae staff yn sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn drwyadl, yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac yn cynnwys barn rhieni. Mae’r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod y disgyblion sy’n cael cymorth yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned deuluol sy’n annog parch ac ymdeimlad cryf o ofal, cynhwysiant a pherthyn. Mae’r aelodau staff yn rhoi cyflawniad a lles disgyblion wrth wraidd eu gwaith ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cyfartal at yr holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais cadarn ar hybu cydraddoldeb a sicrhau bod disgyblion yn rhydd oddi wrth aflonyddwch.

Lleolir yr ysgol ar lecyn braf a gwneir defnydd addas o’r safle. Caiff yr adeilad a’r tir eu cynnal yn dda. Mae cae’r ysgol, yr ardd ac ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion ddefnyddio eu medrau dysgu, i gadw’n iach ac i ddysgu mwy am fyd natur. Mae’r neuadd yn adnodd gwerthfawr sy’n cael ei defnyddio’n effeithiol ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau cymunedol.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da, gan gynnwys cyfrifiaduron newydd, i gynnal dysgu disgyblion yn effeithiol. Mae'r arddangosfeydd lliwgar yn y dosbarthiadau ac ar y coridorau yn dathlu cyflawniadau'r disgyblion yn llwyddiannus iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a sicrhau lles y disgyblion. Mae'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni yn rhannu'r weledigaeth hon, ac mae disgyblion presennol yr ysgol wedi cyfrannu at ei chreu. Mae'r gweithdrefnau rheoli trwyadl a'r cydweithio agos rhwng y staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r awenau arwain, yn absenoldeb y pennaeth, yn effeithiol.

Llwydda'r arweinwyr i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r holl randdeiliaid yn cydweithio'n dda i greu cymuned ysgol hapus iawn. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r disgyblion a'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae swydd ddisgrifiadau cyfredol y staff yn adlewyrchu eu cyfrifoldebau a'u rolau yn eglur.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, er enghraifft trwy gynllunio'n ofalus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a TGCh y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae bron pob aelod o'r corff llywodraethu yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyfrannu at werthuso gwaith yr ysgol yn effeithiol. Mae rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yn gadarn dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol. Mae'r arweinwyr, yr athrawon a'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n dda at y broses trwy ddadansoddi data, craffu ar waith y disgyblion ac arsylwi gwersi. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r ysgol hefyd yn casglu sylwadau oddi wrth y rhieni a'r disgyblion ac yn ymateb yn briodol iddynt. Er enghraifft, maent wedi addasu'r trefniadau gwaith cartref a chynllunio'n ofalus i sicrhau bod y rhieni yn deall y polisi gwrth fwlio.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn drylwyr ac yn rhoi darlun gonest o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae cyswllt amlwg rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn un cynhwysfawr sy'n cynnwys targedau meintiol addas, costau a chamau gweithredu priodol, gan nodi'r athrawon sy'n gyfrifol amdanynt. Mae gan y staff a'r llywodraethwyr rolau clir a phendant yn y broses o weithredu a monitro agweddau o'r cynllun.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael a blaenoriaethau'r cynllun gwella blaenorol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh, a gwneir defnydd da o'r offer i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a datblygu eu medrau. O ganlyniad, mae safonau TGCh y disgyblion bellach yn gadarn dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau gwerthfawr a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a chefnogi lles y disgyblion. Mae rhieni yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn eu hysbysu'n effeithiol am faterion cwricwlaidd ac mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plant yn llwyddiannus. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn codi symiau sylweddol o arian yn flynyddol i sicrhau bod gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau i gefnogi a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli â'r gymuned leol hefyd. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn gwneud cyfraniad sylweddol i brofiadau'r disgyblion. Er enghraifft, gwna'r disgyblion ddefnydd da o'r capel a'r eglwys leol yn eu gwersi hanes ac addysg grefyddol. Gwahoddir y gymuned i mewn i'r ysgol yn rheolaidd i fynychu cyngherddau, eisteddfodau a chyrddau diolchgarwch.

Mae'r cydweithio effeithiol gyda'r cylch meithrin lleol yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n hawdd yn nosbarth derbyn yr ysgol. Mae trefniadau addas yn eu lle ar gyfer trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n addas gydag ysgolion eraill y clwstwr lleol yn y broses o gymedroli lefelau gwaith disgyblion a safoni asesiadau. Mae hyn yn sicrhau bod lefelu yn gywir a chyson.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu â chymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r staff cymorth yn gaffaeliad i'r ysgol ac yn cynnig cynhaliaeth werthfawr i'r disgyblion a'r athrawon. Gwna'r arweinwyr ddefnydd da o arbenigedd y staff i godi safonau. Enghraifft dda o hyn yw'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli ar gyfer datblygu medrau TGCh y disgyblion.

Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad proffesiynol staff, cynllun datblygu'r ysgol a system rheoli perfformiad yr ysgol. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r staff yn mynychu sesiynau hyfforddi yn rheolaidd, ond prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau proffesiynol drwy gydweithio ag ysgolion eraill o fewn cymunedau dysgu proffesiynol ffurfiol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Trwy gynllunio gofalus, mae'r gwarged yng nghyllid yr ysgol wedi lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r cynllun busnes cyfredol yn cynnwys strategaethau addas i sicrhau na fydd y lleihad yn ei chyllid dros y tair blynedd nesaf yn cael effaith negyddol ar yr ysgol.

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r ysgol dderbyn Grant Amddifadedd Disgyblion. Mae'r cynllun ar gyfer defnyddio'r grant yn canolbwyntio'n briodol ar wella agweddau cymdeithasol a chodi safonau grwpiau penodol o ddisgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

**6662004 - YSGOL DYFFRYN BANW**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 33 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 4 | 7 | 2 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 2 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 100.0 | 57.1 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 2 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 57.1 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 2 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 71.4 | 50.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 4 | 7 | 2 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 75.0 | 71.4 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 17 | 16<br>94%<br>92% | 1<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 17 | 17<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 17 | 17<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 17 | 17<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 17 | 17<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 17 | 8<br>47%<br>91% | 9<br>53%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 17 | 17<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 17 | 16<br>94%<br>77% | 1<br>6%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 17 | 14<br>82%<br>84% | 3<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Illtud Ceredig James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jane Peate | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.